HM Government

Adeiladu cymdeithas ar gyfer pob oedran

Crynodeb

Adeiladu Dyfodol Prydain

Cynnwys

Rhagair y Prif Weinidog 3
Rhagair 4
Crynodeb gweithredol 5
Cwestiynau ac ymgynghori 10

Rhagair y Prif Weinidog

Mae Henry Allingham, cyn-filwr Prydeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf, newydd ddyfod y dyn hynaf yn y byd yn 113. Bu fyw trwy dair canrif, mae'n ben ar deulu sy'n rhychwantu pum cenhedlaeth, ac mae ei fywyd yn hynod ar lawer cyfrif. Ond ni fydd cyrraedd oedran Henry mor anarferol yn y dyfodol – dyfodol sy'n rhaid i Brydain baratoi ar ei gyfer yn awr.

Eisoes ym Mhrydain, am y tro cyntaf yn ein hanes, mae mwy o bensiynwyr na phlant dan 16 oed. A bydd un o bob pedwar babi a enir heddiw yn byw i fod yn gant.

Mae'r ffaith ein bod yn byw yn hwy yn rheswm dros ddathlu – teyrnged i'r cynnydd a wnaethpwyd gan y ddynoliaeth, i lwyddiant y wladwriaeth les ac i athrylith gwyddoniaeth feddygol. Ond mae angen i ni roi newidiadau ar waith, yn ogystal, er mwyn sicrhau fod gennym ddewisiadau ynghylch sut dymunwn fyw wrth i ni fynd yn hŷn – dewisiadau ynghylch faint i weithio, sut i gael gafael ar y gofal iechyd a fydd yn ein cadw'n heini am gyfnod hwy, a beth yw'r ffordd orau i gynnal cysylltiad â'n cymunedau.

Dyma pam rydym yn diwygio'r system bensiwn yn drylwyr, gan gynnwys sicrwydd nad oes rhaid i unrhyw bensiynwr fyw ar lai na £130 yr wythnos. Dyma pam fydd y Mesur Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu nad ellir mo'i gyfiawnhau ar sail oedran. A dyma pam rydym ni'n cefnogi pobl hŷn gyda pholisïau didrafferth, ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau – o nofio am ddim i docynnau bws am ddim sy'n eu galluogi i gyrraedd y pwll nofio.

Dyma pam, yn ogystal, rydym yn cyhoeddi y caiff yr arolwg o'r Oedran Ymddeol Rhagosodedig – sy'n caniatáu i gyflogwyr orfodi pobl i ymddeol yn 65 hyd yn oed pan fyddai'n well ganddynt barhau i weithio – ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

Awgryma tystiolaeth y gallai caniatáu i bobl hŷn barhau i weithio, heb eu caethiwo gan farn negyddol ynghylch heneiddio, fod yn ffactor mawr yn llwyddiant busnesau Prydain a'n twf economaidd yn y dyfodol. Fel gwlad, rhaid i ni wneud y defnydd gorau o dalentau pob un o'n pobl, beth bynnag fo'u hoed, os ydym am sicrhau dyfodol economaidd llwyddiannus. Mae hynny'n golygu bod Llywodraeth yn newid ei dull o gefnogi pobl hŷn , ond mae hefyd yn golygu newid agweddau a disgwyliadau ar draws ein cymdeithas yn ei chyfanrwydd, gan helpu i gael gwared ar stereoteipiau hen ffasiwn a herio rhagdybiaethau ynghylch beth a olygir gan heneiddio.

Mae'r strategaeth hon yn gosod allan ein gweledigaeth ar gyfer y 'gymdeithas ar gyfer pob oedran' honno – ond mae hon yn gymdeithas na fedrwn mo'i hadeiladu ond gyda'n gilydd, gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau, busnesau, Sefydliadau'r Llywodraeth ac Anllywodraethol i gyd yn cydweithio er mwyn helpu pobl hŷn i fyw bywydau hwy, mwy iach a mwy bywiog.

Ni ddylid rhoi amcangyfrif rhy isel ar raddfa a chymhlethdod yr her, ond nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y dylem ni edrych ar y newidiadau demograffig hyn fel cyfle yn hytrach na fel bygythiad – ein cyfle ni i adeiladu cymdeithas lle caiff pobl eu barnu, nid yn ôl eu hoedran ond yn ôl eu galluoedd a'u hanghenion a lle gall pob person o bob oedran gyfrannu at Brydain well a chryfach.



Y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown AS
Prif Weinidog

Rhagair

Fel gwlad, yr ydym yn byw trwy newid demograffig anferth. Mae hyn yn her, ond mae'n gyfle aruthrol, yn ogystal. Dylem ddathlu'r ffaith fod gennym y cyfle i fyw'n hwy a manteisio ar y cyfoeth digynsail o ragolygon, na roddwyd i unrhyw genhedlaeth cyn hyn.

Ar hyn o bryd gall pobl ddisgwyl treulio hyd at drydedd rhan o'u bywydau dros Oed Pensiwn y Wladwriaeth. Er mwyn i'r cyfnod hwn fod yn un boddhaus, cynhyrchiol a hapus, rhaid i ni greu amgylchfyd lle gall ein blynyddoedd diweddarach fod yn amser i'w fwynhau. Mae hwn nid yn unig yn fater o bwys i bobl sydd eisoes yn nesáu at gyfnod diweddarach eu bywydau. Mae'n effeithio ar bawb, nid yn unig am fod pob un ohonom yn mynd yn hŷn, ond oherwydd byddwn ni oll, yn gynyddol, yn ymwneud â, yn gofalu am, ac yn dysgu o'r niferoedd uwch o bobl sydd yng nghyfnod diweddarach eu bywydau.

Ym mhresenoldeb newid o'r fath yn oedran ein poblogaeth, rhaid i ni ymaddasu fel cymdeithas, ac yn gyflym, er mwyn medru sicrhau fod gan bawb y cyfle i fyw bywydau boddhaus, cynhyrchiol, beth bynnag fo'u hoedran. Lluniwyd y strategaeth hon er mwyn hyrwyddo lles pawb, helpu i gadw pobl yn iach, creu ymdeimlad cryfach, mwy cyfoethog o gymuned a hybu ein heconomi.

Y rheswm ein bod wedi gweithio ar draws y llywodraeth er mwyn creu'r strategaeth hon, *Adeiladu cymdeithas ar gyfer pob oedran* yw er mwyn sicrhau y gallwn, fel cymdeithas, wneud y defnydd gorau posib o'r newid demograffig hwn. Mae'n helpu strategaeth 2005 y Llywodraeth *Oes Cyfle* a gafodd ei chyflawni i raddau helaeth. Mae'n adeiladu ar sylfaen gadarn o ddiwygiadau diweddar i'r systemau pensiynau ac iechyd ar gyfer pobl hŷn.

Bydd gan bob un ohonom anghenion a disgwyliadau gwahanol wrth i ni fynd yn hŷn. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu hyn, ac yn anelu at roi'r arfau a'r anogaeth i bobl y maent eu hangen er mwyn paratoi'n fwy effeithiol ar gyfer cyfnod diweddarach eu bywydau, gwneud y defnydd gorau posib o'u blynyddoedd diweddarach a'u galluogi i gael gafael ar y cynhorthwy cywir pan fyddant ei angen.

Effeithir ar bawb gan y strategaeth hon a rhaid i bob un ohonom gydweithio'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn ei chyflawni.

Edrychwn ymlaen at ei rhoi ar waith.

Angela Eagle AS
Gweinidog Gwladol dros Bensiynau a'r Gymdeithas sy'n Heneiddio
Adran Gwaith a Phensiynau

Phil Hope AS
Gweinidog Gwladol dros Wasanaethau Gofal
Adran Iechyd

Ian Austin AS
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol

Crynodeb gweithredol

1 Mae mwy ohonom yn byw yn hwy nag erioed o'r blaen. Nid yw hwn yn ffenomenon newydd – bu disgwyliad oes yn tyfu'n raddol ers dros ganrif bellach, ond mae'r DU newydd fynd heibio pwynt tipio demograffig. Yn 2007, am y tro cyntaf yn y DU, roedd mwy o bobl dros oed Pensiwn y Wladwriaeth na phlant; nid dyfod yfory y mae cymdeithas sy'n heneiddio mwyach – mae wedi cyrraedd heddiw.

2 Mae mwy o bobl yn byw bywydau hwy yn rheswm dros ddathlu. Mae'n ganlyniad uniongyrchol o gynnydd aruthrol dros y 60 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, sylweddolwn bydd y newidiadau yn ail-lunio ein teuluoedd a'n cymunedau ar raddfa sylfaenol, felly rhaid i'n cymdeithas ymaddasu er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o'r realiti newydd hwn. Mae angen i ni weithredu nawr er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r newid.

Gwella cyfnod diweddarach oes heddiw

3 Bu gwella ansawdd bywyd pobl hŷn presennol yn flaenoriaeth ers tro byd ar gyfer y Llywodraeth hon. Tra bod mwy fyth i'w gyflawni, gwelwyd gwelliannau gwirioneddol ers 1997. Am y tro cyntaf, mae pensiynwyr yn awr yn llai tebygol nag eraill o fod yn dlawd. Mae gan bobl hŷn fwy o gyfleoedd i barhau i weithio os ydynt yn dymuno gwneud – mae gan fwy na 1.3 miliwn o bobl dros oed Pensiwn y Wladwriaeth swyddi erbyn hyn. Nhw sydd wedi bod y grŵp cyflogedig sy'n tyfu ar y raddfa gyflymaf ac maent yn adrodd am lefelau uchel o fodlondeb â'u swyddi. Tu hwnt i fyd gwaith, mae disgwyliad oes wedi parhau i dyfu gan oddeutu 2 flynedd y degawd, ac mae gwelliannau mewn amseroedd aros a thriniaethau iechyd wedi helpu i sicrhau fod tri chwarter o'r blynyddoedd ychwanegol hyn yn cael eu treulio mewn iechyd da neu weddol dda.

Yr her o'n blaen a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

4 Bydd angen i ni adeiladu ar y cynnydd hwn er mwyn medru mynd i'r afael â'r heriau a manteisio'n llawn ar gyfleoedd newid demograffig. Er mwyn gwneud hyn yn iawn, mae angen newid sylfaenol mewn diwylliant arnom, er mwyn llunio ein gweledigaeth o gymdeithas ar gyfer pob oedran – lle nad yw pobl yn cael eu diffinio yn ôl eu hoedran, ac nid yw rhagfarn yn ein hatal rhag defnyddio sgiliau a phrofiad ein poblogaeth hŷn yn llawn.

5 Mae'r Llywodraeth eisoes yn rhoi'r sylfeini hanfodol yn eu lle ar gyfer y newid diwylliannol hwn. Mae dwy Ddeddf Pensiwn wedi ei gwneud yn decach ac yn haws i gynilo arian ar gyfer ymddeol nag erioed o'r blaen, gan alluogi mwy o bobl i ddarparu ar gyfer eu dyfodol. Bydd y Mesur Cydraddoldeb cyfredol yn gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran nad ellir mo'i gyfiawnhau wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau a bydd y Papur Gwyrdd Gofal a Chynhorthwy a gaiff ei gyhoeddi cyn bo hir yn mynd i'r afael ag anghenion gofal poblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, ni chaiff y newid y dyhëwn amdano ei gyflawni gan ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun. Mae hyn angen newid o ran agwedd ac ymddygiad ar draws cymdeithas fel na welir henaint mwyach fel cyfnod o fod yn ddibynnol a chael eich cau allan.

6 Mae'r strategaeth hon yn gosod allan rhaglen o weithredu er mwyn cefnogi'r newidiadau ar gyfer unigolion, ar gyfer teuluoedd, ar gyfer y gweithle a'r economi ac ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau; strategaeth i'n tywys yn agosach at gymdeithas sy'n wirioneddol ar gyfer pob oedran.

Caffael y bywyd diweddarach y dymunwch

7 Gall cynllunio a pharatoi da gael effaith anferth ar ansawdd cyfnod diweddarach bywyd, gan sicrhau fod sicrwydd ariannol gan bobl a rhwydweithiau cynhorthwy cymdeithasol maent eu hangen er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u hamser, eto mae nifer fawr o bobl yn ei chael yn anodd edrych tua'r dyfodol. **Bydd ein 'siop un alwad' newydd rhyngweithiol ar gyfer helpu pobl i gynllunio o flaen llaw** yn ei gwneud yn haws i bobl ganol oed wneud y penderfyniadau sydd angen iddynt eu gwneud ar ystod o bynciau fel eu materion ariannol a phryderon iechyd.

8 Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau y gall pobl fanteisio arnynt wrth iddynt fynd yn hŷn – chwaraeon, addysgol neu gymdeithasol, ac mae'r buddion yn ymestyn o helpu pobl i wneud ffrindiau newydd, cynnal neu wella eu hiechyd a'u ffitrwydd, hyd at achub ar y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd. Fodd bynnag, gan nad yw pobl bob amser yn gwybod beth sydd ar gael, neu efallai heb feddu ar yr hyder i archwilio gorwelion newydd, bydd y pecyn newydd **Yn fywiog yn 60 (Active at 60)** yn rhoi gwybodaeth i bobl sy'n nesáu at eu pen-blwydd yn 60 ynghylch eu hawliau a'u cyfleoedd, fel y fenter nofio am ddim a lansiwyd eleni. Er mwyn helpu i gynyddu cyfranogaeth, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn defnyddio technoleg cerdyn call er mwyn darparu **cardiau popeth yn un**. Bydd hyn yn rhoi mynediad i ystod o weithgareddau lleol, a byddwn yn comisiynu cyrff llywodraethol cenedlaethol chwaraeon i greu system chwaraeon cymunedol heb ei hail a threfnu cynhadledd lefel uchel er mwyn annog pobl dros 50 i fod yn gyfrannog. Byddwn, yn ogystal, yn cyflwyno cynigion wedi'u targedu i helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu yn ystod eu blynyddoedd diweddarach, gan gynnwys cronfa gweddnewid dysgu o £20 miliwn er mwyn rhoi syniadau newydd ar brawf er mwyn i bawb gael mynediad i ddulliau dysgu anffurfiol, fel agor siopau gwag i gynnal digwyddiadau dysgu ar y stryd fawr.

Pobl hŷn wrth galon teuluoedd

9 Sylweddolwn nad yw mynd yn hŷn yn mynd i effeithio ar yr unigolyn yn unig. Wrth i ni heneiddio, mae strwythurau ein teuluoedd yn mynd i newid yn ogystal. Bydd gan deidiau a neiniau mwy bywiog y cyfle i chwarae rhan fwy ym mywydau eu teuluoedd, ond bydd mwy o bobl yn gofalu am eu perthnasau hŷn yn ogystal.

10 Oherwydd ein bod eisiau sicrhau y gallwn ni gynnal y newidiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi **Papur Gwyrdd Teuluoedd a Chydberthnasau** yn ystod yr hydref er mwyn edrych ar sut gallwn ni ddarparu mwy o gynhorthwy i aelodau teuluoedd. Bydd rhan o'r newid o ran cydberthnasau yn dibynnu ar sicrhau fod gan y cenedlaethau gwahanol y cyfle a'r gallu i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd, a dyma pam fyddwn ni'n cynnal **prosiectau cynhwysiad digidol**, wedi'u targedu ar roi mynediad i bobl mewn llety cysgodol i dechnoleg newydd.

11 Credwn fod gofalu am bobl hŷn mor bwysig â gofalu am blant, felly, er mwyn cefnogi pob gofalwr yr ydym yn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi trwy Ganolfan Byd Gwaith, gyda £38 miliwn i alluogi ymgynghorwyr i fynd i'r afael yn benodol â'u hanghenion nhw. Un nodwedd arbennig o ofalu a ddaw yn gynyddol bwysig yw rôl teidiau a neiniau a fyddant yn gofalu mwy a mwy am eu hwyrion. Ceir galwadau cynyddol ar 'genhedlaeth frechdan' sy'n gofalu am blant ac am berthnasau hŷn. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion ac anghenion mwy cymhleth hyn, bydd **uwchgynhadledd teidiau a neiniau** yn yr hydref yn edrych ar rôl teidiau a neiniau sy'n newid a pha gymorth ychwanegol y medrent fod ei angen.

Cysylltu â gwaith a'r economi

12 Bydd niferoedd cynyddol o bobl eisiau manteisio ar eu bywydau gweithredol hwy a pharhau i weithio. P'un ai ydynt eisiau rhoi hwb i'w hincwm neu barhau i fwynhau'r annibyniaeth a'r ymdeimlad o werth sy'n dod o weithio, bydd yn bwysig i ganiatáu i'r rheiny sy'n dymuno hynny weithio am gyfnod hwy. Ceir hefyd y budd pwysig i fusnes o ddefnyddio'r profiad a'r ymrwymiad sydd gan bobl hŷn. Byddwn yn dwyn yr **arolwg o'r Oed Ymddeol Rhagosodedig** ymlaen i 2010, i adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau economaidd ers y cyflwynwyd ef. Yn ogystal â darparu cyngor i fusnesau ynghylch cyflogi gweithwyr hŷn, a gwybodaeth i bobl sy'n dymuno parhau i weithio ynghylch y dewisiadau sy'n agored iddynt, byddwn hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd hyblyg mewn **addysgu**, **tiwtora** ac ar gyfer **hunangyflogaeth 50+**, a rhoi dulliau ar brawf o atal pobl rhag gorfod gadael gwaith o ganlyniad i afiechyd. Bydd y fenter **O Blaid Oedran (Age Positive)** yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi a helpu i wella agweddau cyflogwyr tuag at weithwyr hŷn.

13 Mae newid demograffig hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i fusnesau ymateb i farchnadoedd sy'n ymddangos a nodi sut gall cynhyrchion a gwasanaethau gael eu dylunio'n well i fod yn addas ar gyfer pawb, ni waeth beth fo'u hoedran. Bydd **Tîm Arloesedd a Thwf**, o arbenigwyr o'r byd academaidd, busnes a'r sector oed, ochr yn ochr â'r Rhaglen Dylunio Oed yn helpu i nodi a hyrwyddo'r cyfleoedd busnes hyn i gwmnïau a'r Llywodraeth a hyrwyddo dylunio a gwasanaethau sy'n oed-gynhwysol

Gwella cynhorthwy ariannol

14 Un o'r rhwystrau pwysicaf potensial i bobl fedru byw bywydau diweddarach hapus a boddhaus yw ansicrwydd ynghylch y dyfodol ariannol. Bydd diwygiadau pensiwn y wladwriaeth y Llywodraeth, sy'n dod i rym o 2020 yn sicrhau fod gan bobl sylfaen gadarn er mwyn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad trwy fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hanesyddol yn y system ac ailgyflwyno'r cyswllt rhwng Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac enillion yn 2012 neu erbyn diwedd y Senedd nesaf fan bellaf.

15 Bydd diwygiadau i'r system bensiwn preifat a fyddant yn dod i rym yn 2012 yn cynhyrchu newid aruthrol yn null miliynau o bobl o gynilo a chynllunio ar gyfer eu hymddeoliad. Bydd y diwygiadau'n cyflwyno pensiynau hawdd eu cael y bydd pobl yn ymuno'n awtomatig â nhw wrth gychwyn swydd gyda'u harian hwy eu hunain yn derbyn hwb gan gyfraniadau oddi wrth y llywodraeth a'u cyflogwr. Ond sylweddolwn, yn ogystal, fod angen parhau i warchod pensiynwyr tlotach nad yw eu dyfodol ariannol mor sicr. Byddwn yn mabwysiadu grymoedd yn y Mesur diwygio Lles er mwyn edrych i weld p'un ai oes dulliau'n bodoli i ni fedru defnyddio'r wybodaeth sydd gennym er mwyn cynyddu'r nifer sy'n gwneud cais am gredyd pensiwn.

Gwasanaethau cyhoeddus gwell ar gyfer cyfnodau diweddarach bywyd

16 Hyd yn oed gyda bywyd cymdeithasol llawn a boddhaus, rhwydweithiau cymunedol a theuluol gwell a dyfodol ariannol mwy sicr, bydd angen i gymdeithas ar gyfer pob oedran gydnabod anghenion pobl hŷn yn ei dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd rhan o hyn yn golygu ymyrryd mewn modd callach, cynnig help i ddatrys problemau cyn iddynt ddechrau, a dyma'r rheswm pam fydd **pecyn gofal iechyd ataliol**, yn hwyrach eleni, yn codi'r ffocws ar wasanaethau ataliol ar gyfer afiechydon sy'n effeithio'n aml ar bobl yng nghyfnod diweddarach eu bywydau, gan gynnwys gofal traed, atal cwympiadau, gofal ymatal, iselder ysbryd ac arthritis. Bydd **Papur Gwyrdd Gofal a Chynhorthwy**'r Llywodraeth, a gaiff ei gyhoeddi cyn bo hir, hefyd yn gosod allan gweledigaeth newydd ar gyfer dyfodol gofal a chynhorthwy cymdeithasol, egluro sut bydd gwasanaethau'n newid er mwyn gwireddu'r weledigaeth, ac awgrymu dewisiadau ar gyfer system gyllido sy'n decach ac yn fwy cynaliadwy.

17 Mae hyn yn ymwneud â mwy na gwasanaethau iechyd yn unig; bydd ystod o wasanaethau gwahanol sydd angen iddynt fod yn addas ar gyfer pawb, ni waeth beth fo'u hoedran. Byddwn yn datblygu Rhaglen **Lle Da i Heneiddio** gyda chytundeb cenedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd pynciau heneiddio ar lefel leol, a darparu cyllid er mwyn rhoi dulliau newydd ac arloesol ar brawf o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Ar lefel genedlaethol, bydd **Fforwm Ymgynghorol newydd y DU ar Heneiddio** yn gyfrifol am roi cyngor i weinidogion ar draws y Llywodraeth ynghylch camau ychwanegol y mae angen i'r Llywodraeth a'i phartneriaid eu cymryd er mwyn gwella lles ac annibyniaeth yn ddiweddarach mewn bywyd.

Adeiladu cymunedau ar gyfer pob oedran

18 Mae pobl yng nghyfnodau diweddarach eu bywydau yn aml yn asgwrn cefn i'w cymunedau trwy wirfoddoli, gofalu a chwarae rhan fywiog ym mywyd y gymdogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig lle mae'r newid demograffig yn fwy datblygedig. Dymunwn fanteisio i'r eithaf ar y cryfder hwn, felly bydd ein rhaglen Cenedlaethau Gyda'i Gilydd o £5.5 miliwn yn ariannu 12 o brosiectau rhyng-genhedlaeth ledled y wlad i gael gwared ar rwystrau a herio stereoteipiau negyddol. Byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn alluogi pobl sydd wedi ymddeol a gweithwyr hŷn gymdeithasu'n haws gyda phobl ifengach a dysgu sgiliau newydd wrth drosglwyddo eu gwybodaeth a'u profiad gyrfa eu hunain iddynt. Mae gallu aros yn fywiog yn dibynnu, yn ogystal, ar barhau i fedru symud o gwmpas felly byddwn yn helpu pobl i barhau i yrru trwy ddarparu hyfforddiant gloywi gyrwyr yn ein **rhaglen gyrru am oes** ac ar gyfer y rheiny na fedrant barhau i yrru bydd help i bobl wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus.

Cydweithio er mwyn adeiladu cymdeithas ar gyfer pob oedran

19 Mae gan bawb ran i'w chwarae yn y daith hon tuag at gymdeithas newydd, oherwydd mae pawb yn mynd yn hŷn. Bydd pob unigolyn, yn y pen draw, wrth galon paratoi'n well ar gyfer eu blynyddoedd diweddarach eu hunain, byw'n iach yn ystod cyfnod diweddarach eu bywydau a chanfod y cynhorthwy cywir os bo'i angen. Ond rhaid i ni yn y Llywodraeth eu helpu nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau ar hyd y ffordd.

20 Mae'r cyfleoedd a gyflwynir gan gymdeithas sy'n heneiddio yn cwmpasu'r DU i gyd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn i bob un ohonom fedru dysgu oddi wrth ei gilydd a sicrhau fod y mesurau yn *Adeiladu cymdeithas ar gyfer pob oedran* sy'n berthynol i faterion datganoledig yn parhau i gyflenwi strategaethau sydd eisoes yn eu lle yn y gwledydd datganoledig.

21 Mae'r strategaeth hon eisoes yn lloffa o ddadlau a thrafodaeth eang dros y flwyddyn a aeth heibio. Mae ei chyhoeddi nawr yn nodi'r cam nesaf yn y broses tuag at ein nod wrth i ni gychwyn trafodaeth genedlaethol ynghylch sut gallwn ei gwireddu. Byddwn ni, o fewn y Llywodraeth, yn gweithio gyda phob sector o gymdeithas er mwyn i ni i gyd fedru edrych ymlaen at fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan ein bywydau hwy, mwy iachus a hapusach.

Cyhoeddwyd y crynodeb gweithredol hwn i ategu'r strategaeth lawn *Adeiladu Cymdeithas ar gyfer Pob Oedran*. Os hoffech chi weld fersiwn lawn o'r strategaeth, canfod unrhyw fanylion pellach ynghylch polisïau unigol neu waith cysylltiedig ar draws y Llywodraeth gallwch ganfod yr holl wybodaeth rydych ei hangen yn ein gwefan www.hmg.gov.uk/buildingasocietyforallages

Cwestiynau ac ymgynghori

Camau cychwynnol ymarferol yw'r cynigion a osodir allan yn y ddogfen hon er mwyn dechrau cwrdd â heriau a chyfleoedd ein cymdeithas sy'n heneiddio. Mae'r cynigion hyn yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus llawn, ffurfiol ac yr ydym yn croesawu pob barn yn eu cylch. Rydym yn awyddus i dderbyn ymatebion oddi wrth lywodraeth leol, rhanddeiliaid, y sectorau gwirfoddol a phreifat a'r cyhoedd ynghylch sut byddwn yn gweithredu'r cynigion hwn a beth mwy y gellid ei wneud er mwyn gwireddu ein gweledigaeth o gymdeithas ar gyfer pob oedran.

Mae gennym ddiddordeb mewn derbyn ymatebion ar bob agwedd ar y strategaeth sydd o ddiddordeb arbennig i chi. Rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn eich sylwadau a'ch awgrymiadau fel ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1. Rydym yn lansio 'siop un alwad' newydd i ddod â gwasanaethau at ei gilydd ar gyfer pobl sy'n cynllunio o flaen llaw. Yn ogystal â'r gwasanaethau craidd a awgrymir, beth arall hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys?

C2. Ym mha gyfnodau yn eich bywyd fyddai/fyddai wedi bod mwyaf defnyddiol i dderbyn gwybodaeth ynghylch eich cyfleoedd a'ch hawliau?

C3. Sut hoffech chi dderbyn gwybodaeth ynghylch y cyfleoedd a'r hawliau hyn; a chan bwy yr hoffech chi dderbyn hyn?

C4. Pa faterion ychwanegol ddylem ni fod yn gofyn am farn yn eu cylch y tu hwnt i'r rheiny a amlygasom eisoes ar gyfer yr uwchgynhadledd teidiau a neiniau?

C5. Pa gynhorthwy fu o gymorth i chi pan oeddech mewn rôl gofalwr ar gyfer aelodau o'r teulu?

C6. Pa bethau ychwanegol gallwn ni eu gwneud er mwyn galluogi busnesau i ddeall buddion recriwtio a chadw gweithwyr sydd dros 50 oed, ac i ddatblygu strategaethau ymarferol er mwyn elwa o weithlu sy'n heneiddio?

C7. Sut fedrwn i annog pobl i ystyried eu hopsiynau ar gyfer gweithio'n hwy a sicrhau eu bod yn medru cael gafael ar yr wybodaeth maent ei hangen er mwyn dod i'r penderfyniadau hynny ar yr amser cywir?

C8. Sut fedrwn ni sicrhau bydd y Cytundeb Cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bartneriaid cyflawni sy'n cydweithio er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio?

C9. Pan roddasoch y gorau i yrru, beth â'ch helpodd i barhau i fedru mynd o gwmpas a bod yn weithgar yn eich cymuned? Pa ddewisiadau fyddai wedi bod o gymorth?

C10. Dymunwn wella agweddau tuag at heneiddio ar draws cymdeithas. Beth mwy gellid ei wneud er mwyn herio stereoteipiau hen ffasiwn a mynd i'r afael â rhagdybiaethau negyddol ynghylch bod yn hen? Fedrwch chi rannu enghreifftiau da o achosion lle mae hyn eisoes yn digwydd yn eich cymuned leol?

Trefniadau ymgynghori

Sut i ymateb

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael o'n gwefan www.hmg.gov.uk/buildingasocietyforallages neu os gofynnir amdano oddi wrth:

Enw: Age Stakeholder Team

Cyfeiriad: Department for Work and Pensions
Level 5, Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA

Ffôn: 0207 449 7203

E-bost: allages@hmg.gov.uk

Gellir trefnu fod copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen os bo'r angen.

Byddwn yn anfon y ddogfen ymgynghori hon i nifer fawr o bobl a sefydliadau a fuont eisoes yn ymwneud â'r gwaith hwn neu sydd wedi datgan diddordeb. Byddem yn falch iawn petaech yn rhannu'r ddogfen hon ag, neu roi gwybod i ni am, unrhyw un y credwch y byddant eisiau bod yn gyfrannog yn yr ymgynghoriad hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **Dydd Llun, 12 Hydref 2009**. Byddwch gystal ag anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad i:

Drwy'r post: Ageing Strategy Stakeholder Team
Department for Work and Pensions
Level 5, Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA

E-bost: allages@hmg.gov.uk

Ar-lein: www.hmg.gov.uk/buildingasocietyforallages

Wrth ymateb, byddwch gystal â dweud p'un ai ydych yn gwneud hynny fel unigolyn neu'n cynrychioli barnau sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch, os gwelwch yn dda, pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo hynny'n gymwys, sut casglwyd barnau'r aelodau at ei gilydd. Byddwn yn cydnabod i ni dderbyn eich ymateb.

Ymholiadau ynghylch cynnwys y ddogfen hon

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr ymgynghoriad hwn i:

Enw: Hannah Malik

Cyfeiriad: Department for Work and Pensions
Level 5, Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA

E-bost: Hannah Malik at: allages@hmg.gov.uk

Dulliau amgen o fod yn gyfrannog yn yr ymgynghoriad

Dymunwn sicrhau ein bod yn derbyn sylwadau o ystod mor eang â phosib o bobl ynghylch y pynciau yr ymwneir â nhw yn yr ymgynghoriad. Yn ogystal ag ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnwn yn y ddogfen hon, ac unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi, bydd nifer o ddulliau eraill i chi ddweud eich dweud wrthym, gan gynnwys:

- digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol a lleol; a
- gweithdai mewn digwyddiadau eraill a gynhelir gan adrannau o'r Llywodraeth.

Bydd manylion ynghylch y digwyddiadau ymgynghori hyn ar gael yn adran ymgynghoriadau ein gwefan www.hmg.gov.uk/buildingasocietyforallages

Rhyddid gwybodaeth

Mae'n bosibl bydd angen i'r wybodaeth a anfonwch atom gael ei throsglwyddo i gydweithwyr o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'i chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a dderbynwyd, ac y cyfeirir ati yn yr adroddiad ymgynghori cyhoeddedig.

Gall pob gwybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gofynnir amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Trwy ddarparu gwybodaeth bersonol at bwrpasau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn cytuno iddi gael ei datgelu a'i chyhoeddi. Os nad dyna fel y mae, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a ddarparir, neu ei ddileu'n gyfan gwbl. Os ydych eisiau i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na fedrwn warantu i wneud hyn. Ni fedrwn warantu cyfrinachedd ymatebion electronig hyd yn oed os yw eich system TG yn hawlio hyn yn awtomatig.

Os hoffech chi ganfod mwy ynghylch egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut caiff ei gymhwyso o fewn y DWP, byddwch gystal â chysylltu â:

Enw: Charles Cushing

Cyfeiriad: Department for Work and Pensions
Information Policy Division
Central Freedom of Information Team
Adelphi
1-11 John Adam Street
London WC2N 6HT

E-bost: charles.cushing@dwp.gsi.gov.uk neu carol.smith14@dwp.gsi.gov.uk

Dylech nodi nad all Charles na Carol gynghori ynghylch yr ymarfer ymgynghori penodol hwn, ond ar bynciau Rhyddid Gwybodaeth yn unig.

Gellir canfod mwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar dudalennau Rhyddid Gwybodaeth gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y meini prawf ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â Chod Arfer y Llywodraeth ar Ymgynghori – www.berr.gov.uk/files/file47158.pdf – a'i saith o feini prawf ymgynghori, sydd fel a ganlyn:

- **Pryd i ymgynghori**. Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol mewn cam lle mae rhychwant i ddylanwadu ar y canlyniad.
- **Hyd yr ymarferion ymgynghori**. Dylai ymgynghoriadau bara, fel rheol, am o leiaf 12 wythnos, gan roi ystyriaeth i amserlenni hwy lle mae hynny'n ymarferol ac yn gall.
- **Eglurder rhychwant ac effaith**. Dylai dogfen ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, beth sy'n cael ei gynnig, y rhychwant i ddylanwadu, a chostau a buddion disgwyliedig y cynigion.
- **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori**. Dylai ymarferion ymgynghori gael eu dylunio er mwyn bod yn hawdd i'w cael, a bod wedi'u targedu'n glir ar gyfer y bobl hynny y dyluniwyd yr ymarfer ar eu cyfer.
- **Baich yr ymgynghoriad**. Mae'n hanfodol cadw baich yr ymgynghoriad mor isel â phosib os yw ymgynghoriadau yn mynd i fod yn effeithiol ac os yw'r rheiny yr ymgynghorir â nhw yn mynd i dderbyn y broses.
- **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori**. Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriadau'n ofalus a dylid darparu adborth clir i gyfranogion yn dilyn yr ymgynghoriad.
- **Gallu i ymgynghori**. Dylai swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori ymofyn am gyfarwyddyd ynghylch sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol, a rhannu beth maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Adborth ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth ynghylch ansawdd ein hymgynghoriad. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar broses yr ymgynghoriad hwn (yn hytrach na'r pynciau a godir), byddwch gystal â chysylltu â'n Cyd-drefnydd Ymgynghori:

Enw:	Roger Pugh
Cyfeiriad:	DWP Consultation Coordinator Room 4F, Britannia House 2 Ferensway Hull HU2 8NF
Ffôn:	01482 609571
Ffacs:	01482 609658
E-bost:	roger.pugh@dwp.gsi.gov.uk

Yn arbennig, byddwch gystal â rhoi gwybod i ni os ydych yn teimlo nad yw'r ymgynghoriad yn bodloni'r meini prawf ymgynghori. Byddem yn falch o glywed unrhyw awgrymiadau, yn ogystal, ynghylch sut gellid gwella'r broses o ymgynghori ymhellach.

Os oes gennych unrhyw ofynion sydd angen i ni eu cyflawni er mwyn eich galluogi i gynnig sylwadau, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi erbyn
Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2009.

Mae llawer o'r polisïau yn y ddogfen hon wedi'u datganoli yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru gyda phob un o'r gwledydd hyn yn berchen ar eu strategaethau heneiddio neu bobl hŷn eu hunain. Mantais datganoli yw y gall y gweinyddiaethau datganoledig deilwra eu polisïau er mwyn cwrdd ag anghenion penodol eu gwledydd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn arbennig lle mae materion yn neilltuedig, wrth gydnabod y cyfrifoldebau amrywiol ar draws rannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig ac achub ar gyfleoedd i ddysgu o lwyddiannau ein gilydd mewn meysydd lle mabwysiadwyd dulliau gwahanol o fynd ati.

Crynodeb Cymraeg yw'r ddogfen hon o **Adeiladu Cymdeithas ar gyfer Pob Oedran**. Mae'r fersiwn lawn o'r cyhoeddiad hwn (Cm 7655, Gorffennaf 2009) mewn fformat print safonol Saesneg ar gael oddi wrth siopau llyfrau'r Llyfrfa (TSO).

Mae'r cyhoeddiad Saesneg llawn a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn ogystal ar-lein yn:

www.hmg.gov.uk/buildingasocietyforallages

neu os gofynnir amdano oddi wrth:

Age Stakeholder Team
Department for Work and Pensions
Level 5, Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA

Teleffon: 020 7449 7203

E-bost: allages@hmg.gov.uk

Gellir trefnu fod copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen os oes eu hangen.

Os oes gennych anawsterau siarad neu glywed, gallwch gysylltu â ni trwy gyfrwng ffôn testun ar 020 7222 1757

Mae'r llinellau ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb – 4yp.

ISBN: 978-1-84947-034-6

© Hawlfraint y Goron 2009

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2009

www.dwp.gov.uk